

Health Board works with GPs to secure service / Y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Meddygon Teulu i ddiogelu gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio gyda Meddygfa Teifi yn Llandysul i sicrhau bod gwasanaethau meddygon teulu yn parhau i gael eu darparu yn yr ardal yn dilyn rhoi'r gorau i'w contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

Mae penderfyniad y Partneriaid i roi'r gorau i'w cytundeb â'r Bwrdd Iechyd yn dilyn penderfyniad un o'r Partneriaid i adael y practis ym mis Ionawr 2019. Nid ar chwarae bach y gwnaeth y Practis y penderfyniad hwn, ac mae'n dilyn cyfnod o weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio cynnal y practis. Mae lles y cleifion yn dal i fod o'r pwys mwyaf, ochr yn ochr â chynaliadwyedd parhaus y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn Llandysul a'r ardaloedd cyfagos yn y dyfodol.

O ran y cleifion, mae hyn yn golygu y bydd gofal yn parhau i gael ei ddarparu yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf gan yr un meddygon, nyrsys a staff derbynfa yn y practis, ond bydd y Practis a'r Bwrdd Iechyd 'nawr yn ceisio gweithio gyda'r gymuned a phractisau cyfagos er mwyn dod o hyd i ddyfodol mwy hirdymor sy'n sicrhau'r gwasanaeth pwysig hwn ar gyfer poblogaeth ardal Llandysul. Gall y cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Meddygfa Teifi fod yn sicr y bydd y gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu fel arfer am y tro, a gofynnir i'r cleifion aros yn gofrestredig gyda'r practis tra bo cynlluniau mwy hirdymor yn cael eu datblygu.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ysgrifennu at y cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Meddygfa Teifi er mwyn rhoi gwybod iddynt am y sefyllfa a'u gwahodd i roi eu barn am y modd y gellir parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae'r Practis a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos i sicrhau bod cyn lleied o effaith â phosibl ar y cleifion yn sgil unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn y byrdymor neu'r hirdymor.

Bydd cymorth y Bwrdd Iechyd ar yr adeg hon yn sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu, gan roi tawelwch meddwl i bobl leol a staff tra ceisir datrys y mater. Bydd barn y gymuned leol a'r cleifion yn cael ei chasglu cyn i unrhyw benderfyniad gael eu gwneud ynghylch darparu'r gwasanaeth yn yr hirdymor, a bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth barhaus a roddir gan y gymuned i'r tîm ym Meddygfa Teifi.

Cynhelir digwyddiad galw heibio i ymgysylltu â'r cyhoedd ddydd Hydref 2018 yn Neuadd Tysul, Llandysul rhwng 2.00pm a 6.30pm.

Meddai Rhian Bond, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i gynnal y safonau gofal uchel a ddarperir ar hyn o bryd ym Meddygfa Teifi, a hoffai sicrhau'r cleifion y bydd y gwasanaethau pwysig hyn yn parhau i gael eu darparu yn yr ardal hon.

"Rydym wedi cytuno i gydweithio â Meddygfa Teifi a phractisau cyfagos er mwyn canfod y ffordd orau o sicrhau gwasanaethau ar gyfer y cleifion. Byddwn 'nawr yn gweithio gyda'r tîm a'r rhanddeiliaid presennol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol."

Am ragor o wybodaeth, gallwch gyfeirio eich ymholiadau at Adran Gwasanaethau Cleifion y Bwrdd Iechyd trwy ffonio 0300 0200 159, neu at Reolwr Datblygu Ardal De Ceredigion, Carys Davison, trwy ffonio 07773384876, neu trwy anfon neges e-bost i Carys.Davison@wales.nhs.uk
